



# **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW)**

## Cynnwys

Cynnwys.....	2
Hanes adolygu a chymeradwyo.....	3
Cyflwyniad .....	4
Rolau a chyfrifoldebau .....	4
Egwyddorion cydweithredu.....	6
Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd.....	7
Llywodraethu .....	8
Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu.....	8
Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth .....	9
Atodiad B – Manylion Cyswllt .....	11

## Hanes adolygu a chymeradwyo

---

<b>Fersiwn</b>	1.0
<b>Dyddiad y'i crëwyd</b>	10/10/2019
<b>Awduron</b>	AGIC: Joseph Wilton HEIW: Stephen Griffiths
<b>Dyddiad y'i cytunwyd</b>	11/08/2020
<b>Cytunwyd yn ffurfiol gan</b>	AGIC: Alun Jones HEIW: Alex Howells
<b>Dyddiad adolygu</b>	Awst 2022

---

## Cyflwyniad

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw pennu fframwaith er mwyn cefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW).
2. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o'r gwaith o gynnal system reoleiddio effeithiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, sy'n hybu diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.
3. Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC na HEIW ac nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol rwymol; ei ddiben yw diffinio'r cytundeb ar y cyd rhwng y ddau sefydliad a nodi camau gweithredu cyffredin.
4. Fel rhan o'r gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gellir sefydlu cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth, neu brotocolau cydweithio). Bydd y cyfryw gytundebau yn bodoli ar wahân i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## Rolau a chyfrifoldebau

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

5. AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
  - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
  - Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig).
  - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
  - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.
  - Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008.
  - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.
6. Mae blaenoriaethau AGIC fel a ganlyn:
  - rhoi sicrwydd: cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.
  - hybu gwelliant: annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

- dylanwadu ar bolisi a safonau: defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

7. Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym
8. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath

### **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

9. Mae HEIW wedi'i sefydlu fel Awdurdod Iechyd Arbennig gyda'r cyfrifoldeb o integreiddio a datblygu arbenigedd a galluoedd wrth gynllunio, datblygu, llunio a chefnogi'r gweithlu iechyd – gan sicrhau bod gennym y staff cywir, â'r sgiliau cywir, i gyflwyno iechyd a gofal o'r radd flaenaf i bobl Cymru.
10. Fel sefydliad newydd sydd wedi'i sefydlu yn y GIG, mae gofyn i HEIW gyflwyno gwelliannau ynghylch diogelwch ac ansawdd y gofal i gleifion, profiad y staff a'r system gyfan.
11. Mae'r sefydliad yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o swyddogaethau fel yr amlinellir isod

**Gwybodaeth am y gweithlu:** Cydnabyddir HEIW fel ffynhonnell gynradd ar gyfer gwybodaeth a chudd-wybodaeth am weithlu iechyd Cymru. Mae'n darparu cudd-wybodaeth a dealltwriaeth ddadansoddol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu natur y gweithlu nawr ac yn y dyfodol. Mae'n gweithredu fel corff canolog i nodi a dadansoddi ffynonellau cudd-wybodaeth o Gymru, y DU a thramor.

- **Strategaeth a chynllunio'r gweithlu:** Mae HEIW yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer cynllunio'r gweithlu, gan weithio gydag Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth symud ymlaen i drawsnewid y gweithlu er mwyn cyflwyno modelau iechyd a gofal cymdeithasol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau. At hynny, mae HEIW, drwy'r broses hon, yn nodi ac yn datblygu modelau gweithlu newydd sydd eu hangen yn y GIG.

- **Addysg, Comisiynu a Darparu:** Mae HEIW yn cynllunio, comisiynu a darparu addysg a hyfforddiant i amrywiaeth eang o grwpiau o weithwyr iechyd proffesiynol, ac yn ymgorffori'r Deoniaethau Meddygaeth, Deintyddiaeth a Fferylliaeth. Caiff y rhan fwyaf o gyllideb HEIW ei gwario ar hyn.  
**Rheoli Ansawdd:** Mae HEIW yn rheoli ansawdd darpariaeth addysg a hyfforddiant, gan sicrhau ei bod yn bodloni'r safonau gofynnol, ac y caiff gwelliannau eu gwneud lle bo angen. Mae hyn yn cynnwys cefnogi athrawon, hyfforddwyr, hyfforddeion, myfyrwyr, a gweithio'n agos gyda darparwyr addysg, sefydliadau'r GIG a rheoleiddwyr.
- **Cefnogi Rheoleiddio:** Mae HEIW yn chwarae rôl allweddol wrth gynrychioli Cymru drwy ymgysylltu â rheoleiddwyr, gan weithio o fewn y fframwaith polisi a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae HEIW hefyd yn ymgymryd â rolau cymorth rheoleiddiol penodol, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes gan HEIW swyddogaeth reoleiddiol uniongyrchol
- **Datblygu Arweinyddiaeth a Chynllunio ar gyfer Olyniaeth:** Mae HEIW yn arwain ac yn datblygu'r cyfarwyddyd strategol ar gyfer datblygu a chyflwyno'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth i GIG Cymru.
- **Gyrfaoedd ac Ehangu Mynediad:** Mae HEIW yn darparu cyfarwyddyd strategol ar gyfer gyrfaoedd ym maes iechyd a'r agenda ehangu mynediad, gan gyflwyno agenda parhaus i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes iechyd.
- **Gwella'r Gweithlu:** Mae HEIW yn darparu cymorth ymarferol a strategol wrth wella a thrawsnewid y gweithlu, gan gynnwys datblygu sgiliau, cynllunio rolau, datblygiad proffesiynol parhaus a datblygu llwybr gyrfa.
- **Cymorth Proffesiynol ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol:** Mae gan HEIW swyddogaeth benodol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu a'r proffesiwn datblygu sefydliadol yng Nghymru.

## Egwyddorion cydweithredu

12. Mae AGIC a HEIW yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio â'i gilydd.
13. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGIC a HEIW yw y caiff eu cydberthynas waith ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:
  - Yr angen i wneud penderfyniadau sy'n diogelu ac yn hybu gofal iechyd o ansawdd uchel ac sy'n hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion.
  - Bod yn gwbl agored a sicrhau tryloywder rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol nac yn briodol;
  - Parch at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall.
  - Yr angen i ddefnyddio adnoddau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynw a rhannu gwybodaeth yn briodol.

- Yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad.
- Ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw achos o orgyffwrdd neu fylchau a nodwyd yn y fframwaith rheoleiddio a chyfrifoldebau rheoleiddio.

14. Mae AGIC a HEIW hefyd yn ymrwymedig i fabwysiadu dulliau rheoleiddio tryloyw, atebol, cymesur a chyson sydd wedi'u targedu (egwyddorion gwell rheoleiddio).

## **Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd**

### **Cyfnewid Gwybodaeth**

15. Bydd cydweithio rhwng AGIC a HEIW yn aml yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Bydd disgwyl cyfnewid gwybodaeth yn yr achosion canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Bydd naill ai AGIC neu HEIW yn nodi pryderon am iechyd a llesiant y cyhoedd, diogelwch cleifion, neu faterion yn ymwneud â diogelu, a lle bo gan y naill gorff wybodaeth a fyddai o fudd i'r llall yn hynny o beth. Mae'n debygol y bydd hyn yn ymwneud naill ai â hyfforddi staff/myfyrwyr/hyfforddeion gofal iechyd neu â'r gweithlu ehangach (ond nid yn gyfyngedig iddynt), a chanfod datrysiad i bryder a fyddai o fudd i ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig.

16. Mewn achosion o'r fath, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur, a chaiff y wybodaeth ei rhannu'n gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl. Mae atodiad B yn darparu'r manylion cyswllt y dylid eu defnyddio ar gyfer rhannu pryderon.

17. Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw brotocol cydweithio a all gael ei ddatblygu, yn ystyried ac y cydymffurfio â'r canlynol:

- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
- Adran 76 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008
- Deddf Safonau Gofal 2000
- Holl ddeddfwriaeth berthnasol AGIC a HEIW mewn perthynas â'r materion hyn, a phriod Godau Ymarfer, fframweithiau neu bolisiau eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion sy'n ymwneud â gwybodaeth.

18. Mae AGIC a HEIW yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb.

## Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

19. Bydd AGIC a HEIW yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau a gynllunnir i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau a chynigion drafft.
20. Bydd AGIC a HEIW yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu gohebiaeth neu ddatganiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.
21. Bydd AGIC a HEIW yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi ac ni fyddant yn ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi a gynlluniwyd.

## Llywodraethu

22. Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a HEIW. Disgrifir y cyswllt hwn yn Atodiad A.
23. Dylid cynnal cyfarfodydd rhwng cydweithwyr perthnasol yn y ddau sefydliad i drafod gwybodaeth, polisiâu a materion gweithredol sydd o ddiddordeb i'r ddau sefydliad pan fo'n briodol; o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Ceir manylion cyswllt perthnasol ar lefel weithredol y ddau sefydliad yn Atodiad B.
24. Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a HEIW ei ddatrys ar lefel gweithio. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiaid sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys unrhyw anghydfod o fewn amser rhesymol.

## Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu

25. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â chydberthynas waith y ddau sefydliad.
26. Nid oes cyfyngiad amser i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau mewn grym oni fydd angen newid yr egwyddorion a ddisgrifiwyd neu os byddant yn amherthnasol bellach. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob blwyddyn gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, ond gellir hefyd ei adolygu ar fyrder ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.



**Llofnodwyd**



**Alun Jones**

Prif Weithredwr Dros Dro  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 27/07/2020



**Julie Rogers**

Dirprwy Brif Weithredwr  
Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru

Dyddiad: 10/08/2020

**Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth**

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol rhannu gwybodaeth a digwyddiadau, mae rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGIC a HEIW:

**Uwchgynadleddau Gofal Iechyd:**

Mae AGIC yn cynnal Uwchgynhadledd Gofal Iechyd bob chwe mis, sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth am bob Bwrdd Iechyd. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys Rheoleiddwyr Proffesiynol, Cyrff Perfformiad a'r Cynghorau Iechyd Cymuned. Gwahoddir HEIW i'r Uwchgynhadledd hon a gall gyflwyno ei ganfyddiadau i AGIC a'r cyfranogwyr eraill.

**Gweithgareddau ymgysylltu rheolaidd**

Rhwng pob Cynhadledd Gofal Iechyd bydd cynrychiolwyr o AGIC a HEIW yn cyfarfod, fel y bo'n briodol, er mwyn trafod unrhyw faterion neu bryderon penodol a allai fod ganddynt sy'n ymwneud â lleoliadau neu ddigwyddiadau penodol. Bydd y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth am bryderon neu ddigwyddiadau penodol sy'n berthnasol i'r sefydliad arall
- Hwyluso'r broses o gydgyllunio gweithgarwch arolygu, ymchwilio ac adolygu
- Trafod unrhyw ddigwyddiadau a godwyd gan y naill sefydliad neu'r llall

**Rhannu Gwybodaeth am y Gweithlu**

Mae AGIC a HEIW yn aelodau o grŵp bord gron, sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth a phryderon am staffio a gweithlu'r GIG yng Nghymru. Bydd AGIC yn rhannu â HEIW unrhyw ganlyniadau dienw sy'n deillio o unrhyw arolwg staff y mae'n ei gynnal fel rhan o'i raglen arolygu ac adolygu er mwyn cefnogi Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a ragwelir. Mae HEIW wedi cytuno i gefnogi gwaith AGIC drwy ddarparu mynediad at wybodaeth berthnasol a dadansoddiad am y gweithlu, a sut y gall effeithio ar ddiogelwch y cleifion.



## Atodiad B – Manylion Cyswllt

---

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Llywodraeth Cymru Tŷ Dysgu  
Parc Busnes Rhydycar, Cefn Coed,  
Merthyr Tudful, Caerdydd  
CF48 1UZ  
Ffôn: 0300 062 8163

CF15 7QQ  
Ffôn: 0330 058 5005

---

Mae enwau cyswllt AGIC a HEIW fel a ganlyn:

#### Prif Swyddogion Gweithredol

---

##### Alun Jones

*Prif Weithredwr Dros Dro*  
[alun.jones39@gov.wales](mailto:alun.jones39@gov.wales)

##### Alex Howells

*Prif Weithredwr*  
[Alex.Howells@wales.nhs.uk](mailto:Alex.Howells@wales.nhs.uk)

#### Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

---

##### Joseph Wilton

*Pennaeth Partneriaethau,  
Gwybodaeth a Methodoleg*  
[joseph.wilton@gov.wales](mailto:joseph.wilton@gov.wales)  
Ffôn: 0300 025 2663

##### Angela Parry

*Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro*  
[angela.parry2@wales.nhs.uk](mailto:angela.parry2@wales.nhs.uk)  
Ffôn: 01443 846378

#### Atgyfeirio pryderon

---

[Hiw.concerns@gov.wales](mailto:Hiw.concerns@gov.wales)

Ffôn: 0300 062 8163

[angela.parry2@wales.nhs.uk](mailto:angela.parry2@wales.nhs.uk)

Ffôn: 01443 846378

---